# DEDDF CYNLLUNIO (CYMRU) 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 6 Rheoli Datblygu etc.

### *Adran 41 - P#er i wneud darpariaeth sy’n galluogi byrddau cydgynllunio i arfer swyddogaethau rheoli datblygu mewn Parciau Cenedlaethol*

160. Mae gan Weinidogion Cymru b#er o dan adran 2(1B) o DCGTh 1990 i sefydlu bwrdd cydgynllunio i fod yn awdurdod cynllunio lleol ar gyfer dosbarth unedig sy’n cynnwys dwy ardal neu ragor, pob un ohonynt yn sir gyfan neu’n fwrdeistref sirol gyfan neu’n rhan o sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru. Yn rhinwedd adran 2(1D) o DCGTh 1990, ni all dosbarth unedig bwrdd cydgynllunio gynnwys unrhyw ran o Barc Cenedlaethol; ac mae adran 4A yn cadarnhau mai Awdurdod Parc Cenedlaethol yw’r unig awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei Barc Cenedlaethol.

161. Mae adran 41 o’r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud i ffwrdd â’r cyfyngiad hwn ac ymestyn y darpariaethau ar gyfer byrddau cydgynllunio yn adran 2 o DCGTh 1990 i gynnwys ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Mae rheoliadau o dan adran 41 o’r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu dosbarth unedig sy’n cynnwys Parc Cenedlaethol i gyd neu ran ohono, a sefydlu bwrdd cydgynllunio i fod yn awdurdod cynllunio lleol yn lle’r Awdurdod Parc Cenedlaethol at ddibenion penodol.

162. Mae adran 41 yn galluogi sefydlu bwrdd cydgynllunio i fod yn awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ran o’i ardal sy’n cael ei ffurfio gan Barc Cenedlaethol at ddibenion DCGTh 1990 (sy’n darparu ar gyfer materion gan gynnwys penderfynu ceisiadau cynllunio), Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ond nid at ddibenion DCPhG 2004 (sy’n darparu ar gyfer materion gan gynnwys paratoi cynlluniau datblygu lleol). Effaith hyn yw, os yw rhan o Barc Cenedlaethol yn ardal bwrdd cydgynllunio neu os yw’r Parc cyfan yn yr ardal honno, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, nid y bwrdd cydgynllunio, sy’n paratoi’r cynllun datblygu lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol.

163. Mae’r pwerau i wneud rheoliadau yn yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu, ar gyfer unrhyw ran o ardal bwrdd cydgynllunio gan gynnwys Parc Cenedlaethol, pa un ai’r bwrdd cydgynllunio neu’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yw’r awdurdod sylweddau peryglus. Mae’r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth o ddisgrifiadau penodol wrth arfer eu pwerau i wneud rheoliadau.